## Gwasanaethau iechyd meddwl

22 March 2019

### Cais am wybodaeth

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 25 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

1. *Rhwng 2010 a 2019, beth oedd y gyllideb flynyddol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y Cynulliad Cenedlaethol i Aelodau'r Cynulliad a staff. Byddai hyn yn cynnwys cost cyflog cwnselwyr, marchnata a hysbysebu gwasanaethau iechyd meddwl, gweithdai, ac unrhyw wariant perthnasol arall ar iechyd meddwl, ond ni fyddai'n gyfyngedig i'r rhain. A fyddai modd cael y wybodaeth hon ar daenlen sy'n dangos y flwyddyn, cyllideb bob flwyddyn, a'r categorïau gwariant ee cyflog, marchnata, etc etc.*
2. *Rhwng 2010 a 2019, faint o staff oedd yn gweithio yn y gwasanaeth iechyd meddwl yn y Cynulliad Cenedlaethol. A fyddai modd rhoi'r ffigurau ar gyfer bob blwyddyn a galwedigaeth ar daenlen ee 2011 tri chwnselydd, dau PA, etc etc.*
3. *A yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwybodol o'r cymorth iechyd meddwl y mae pleidiau gwleidyddol yn ei ddarparu ac a allai ddatgelu'r trefniadau ar gyfer pob plaid etholedig? Er enghraifft, mae Llafur yn darparu sesiynau cwnsela bob wythnos i'r Aelodau neu mae'r Blaid Werdd yn buddsoddi mewn gweithdai iechyd meddwl? Os na ellir ateb y cwestiynau hyn, a allech chi roi gwybodaeth i mi yn egluro faint o ASau sydd wedi cymryd amser i ffwrdd oherwydd rhesymau iechyd meddwl rhwng 2010 a 2019?*
4. *Rhwng 2010 a 2019, faint o ASau a staff oedd wedi cofrestru i gael cymorth iechyd meddwl gan wasanaeth a gaiff ei ddarparu gan Gynulliad Cymru?*

Dyma ein hymateb i'ch cwestiynau:

1. *Rhwng 2010 a 2019, beth oedd y gyllideb flynyddol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn y Cynulliad Cenedlaethol i Aelodau'r Cynulliad a staff. Byddai hyn yn cynnwys cost cyflog cwnselwyr, marchnata a hysbysebu gwasanaethau iechyd meddwl, gweithdai, ac unrhyw wariant perthnasol arall ar iechyd meddwl, ond ni fyddai'n gyfyngedig i'r rhain. A fyddai modd cael y wybodaeth hon ar daenlen*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru
Information-request@assembly.wales

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

*sy'n dangos y flwyddyn, cyllideb bob flwyddyn, a'r categorïau gwariant ee cyflog, marchnata, etc etc.*

Nid oes gennym gyllideb benodedig ar gyfer addysg iechyd meddwl.

At ei gilydd, £48,525 oedd cost yr hyfforddiant a roddwyd i staff Comisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad (ACau) a staff cymorth yr Aelodau (fel y nodir yn ein hymateb i gwestiwn 4).

2. *Rhwng 2010 a 2019, faint o staff oedd yn gweithio yn y gwasanaeth iechyd meddwl yn y Cynulliad Cenedlaethol. A fyddai modd rhoi'r ffigurau ar gyfer bob blwyddyn a galwedigaeth ar daenlen ee 2011 tri chwnselydd, dau PA, etc etc.*

Nifer y staff sy'n gweithio ym maes iechyd a lles:

| | |
|---|---|
| 2010 - hyd heddiw | 1 Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles |
| 2014 - hyd heddiw | 1 Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Mewnol (2 ddiwrnod yr wythnos) |

Mae gan staff Comisiwn y Cynulliad, Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth yr Aelodau fynediad i rwydwaith MINDFUL. Hwn yw rhwydwaith cydraddoldeb iechyd meddwl a lles yn y gweithle, ac fe'i sefydlwyd yn y Cynulliad yn 2017.

3. *A yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymwybodol o'r cymorth iechyd meddwl y mae pleidiau gwleidyddol yn ei ddarparu ac a allai ddatgelu'r trefniadau ar gyfer pob plaid etholedig? Er enghraifft, mae Llafur yn darparu sesiynau cwnsela bob wythnos i'r Aelodau neu mae'r Blaid Werdd yn buddsoddi mewn gweithdai iechyd meddwl? Os na ellir ateb y cwestiynau hyn, a allech chi roi gwybodaeth i mi yn egluro faint o ASau sydd wedi cymryd amser i ffwrdd oherwydd rhesymau iechyd meddwl rhwng 2010 a 2019?*

Nid oes gennym unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cais.  Efallai y gallech holi'r pleidiau gwleidyddol unigol.

4. *Rhwng 2010 a 2019, faint o ASau a staff oedd wedi cofrestru i gael cymorth iechyd meddwl gan wasananeth a gaiff ei ddarparu gan Gynulliad Cymru?*

Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol sydd ar waith ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff wedi trefnu hyfforddiant amrywiol ers 2011. Mae manylion y cyrsiau sy'n berthnasol i'r cais hwn ynghlwm. Maent yn cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau a drefnwyd i geisio gwella sgiliau a gwybodaeth y rhai

sy'n gweithio yn swyddfeydd Aelodau'r Cynulliad i'w helpu i ymdrin â phryderon eu hetholwyr, neu broblemau anodd y mae'n bosibl y bydd angen iddynt ymdrin â nhw neu eu deall yn rhinwedd eu swydd, yn ogystal â helpu unigolion sydd ag anghenion iechyd meddwl.

**Aelodau'r Cynulliad a Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad**

| Cwrs | Cynrychiolwyr | Nifer |
|---|---|---|
| **2012** | | |
| Cysylltiadau emosiynol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 18 |
| Hunanladdiad - deall, atal ac arfer gorau | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 1 |
| Cysylltiadau emosiynol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 5 |
| Cymorth cyntaf iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 2 |
| **2011** | | |
| Ymdopi ag ymddygiad heriol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 12 |
| Ymdopi ag ymddygiad heriol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 11 |
| Ymdopi ag ymddygiad heriol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 8 |
| **2013** | | |
| Cymorth cyntaf iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 2 |
| Rheoli straen bywyd a gwaith | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 1 |
| Cymorth cyntaf iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 5 |
| 2014 | | |
| Ymdopi ag ymddygiad heriol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 8 |
| Sgiliau cynghori 1 | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 1 |
| Gwydnwch ac ymwybyddiaeth ofalgar (8 sesiwn) | Aelodau'r Cynulliad | 5 |
| Atal hunanladdiad | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 4 |
| **2015** | | |
| Gwydnwch ac ymwybyddiaeth ofalgar | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 7 |
| E-ddysgu ymwybyddiaeth ofalgar | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 1 |
| Cymorth cyntaf iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 11 |
| Gwydnwch ac ymwybyddiaeth ofalgar (8 sesiwn) | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 6 |

| | | |
|---|---|---|
| 2016 | | |
| Cynhadledd - Iechyd Meddwl Heddiw | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 1 |
| Cyflwyniad i Wydnwch a Deallusrwydd Emosiynol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | anhysbys |
| Deall y Sbectrwm Awtistiaeth | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 3 |
| Cymorth cyntaf iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 5 |
| Sgyrsiau â phobl sy'n agored i niwed | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 7 |
| Cynhadledd ar Agwedd Dosturiol at Iechyd Meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 1 |
| Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 6 |
| 2017 | | |
| Gwydnwch ac ymwybyddiaeth ofalgar | Aelodau’r Cynulliad | 1 |
| Ymdopi'n well | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 3 |
| Gwydnwch ac ymwybyddiaeth ofalgar (8 sesiwn) | Aelodau’r Cynulliad | 6 |
| Cwnsel | Aelodau’r Cynulliad/Staff Cymorth | anhysbys |
| Cwnsela | Aelodau’r Cynulliad/Staff Cymorth | anhysbys |
| Cwnsela | Aelodau’r Cynulliad/Staff Cymorth | anhysbys |
| Cwnsela | Aelodau’r Cynulliad/Staff Cymorth | anhysbys |
| 2018 | | |
| Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 5 |
| Meithrin gwydnwch emosiynol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 5 |
| Ymdopi'n well | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 1 |
| Atal hunanladdiad | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 4 |
| Ymdopi'n well | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 3 |
| Atal hunanladdiad | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 7 |
| Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 5 |
| Cymorth cyntaf iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 3 |
| Delio â sefyllfaoedd heriol | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 10 |
| 2019 | | |
| Hyfforddiant ASSIST | Aelodau’r Cynulliad | 1 |
| Seminar Lles | Aelodau’r Cynulliad/Staff Cymorth | 4 |

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth cyntaf iechyd meddwl | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 1 |
| Seminar Lles | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 4 |

Cymerodd staff Comisiwn y Cynulliad ran yn yr hyfforddiant a ganlyn.

| **Cwrs** | **Cynrychiolwyr** |
|---|---|
| Cynhadledd ar Feithrirn Gwydnwch Sefydliadol | Staff amrywiol - Anhysbys |
| 2015 | |
| Iechyd Meddwl Gwell - Mind | Cynrychiolwyr amrywiol - anhysbys |
| 2017 | |
| Gwella Iechyd Meddwl, Lles a Lleihau Straen yn y Gweithle i Reolwyr | Llysgenhadon Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - 13 x uned |
| Gwydnwch ac deallusrwydd emosiynol | Llysgenhadon Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - 9 x uned |
| Deall Iechyd Meddwl a Gwella Lles | Tîm Adnoddau Dynol - 10 x uned |
| 2019 | |
| Seminar Cadernid | Amrywiol - 9 yn bresennol |
| Cymorth cyntaf iechyd meddwl | Amrywiol - 7 yn bresennol |
| Ymwybyddiaeth o iechyd meddwl | (Amrywiol) |

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:
Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF